YR YMOFYNYDD.

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—Paul.

CYFRES NEWYDD.] CHWEFROR, 1900. [RHIF 146.

JOHN POUNDS.

[*Blin genym i ni fethu cael darlun o'r gwr enwog hwn, am ei fod wedi myned ar goll, trwy ryw anffawd neu gilydd. Ond rhoddwn ddarlun o'r tŷ lle yr arferai ddysgu ei blant yn nhref Portsmouth.* —GOL.]

YR oedd John Pounds yn un o'r ardderchog lu i'r hwn y perthyn John Howard, ac Elizabeth Fry, a Miss Dix o'r America, a Florence Nightingale, a Mary Carpenter. Hynodir y dosbarth hwn gan haelfrydedd eu cymeriad, a'u ffyddlondeb i gario allan eu cynlluniau dyngarol ar ran yr anwybodus, yr anonest, yr anniwair, y claf, a'r amddifad.

Enwogodd John Pounds ei hun fel sylfaenydd yr Ysgolion Carpiog (*Ragged Schools*) yn y wlad hon. Ysgolion yw y rhai hyn i gynull iddynt blant gwaethaf a mwyaf dinawdd ein trefydd, nad oes neb yn edrych ar eu hol, nac yn gwneyd un ddarpariaeth ar gyfer eu haddysg. Maent erbyn hyn wedi eu sefydlu yn y rhan amlaf o'n trefydd mawrion; ond John Pounds oedd y cyntaf i gychwyn yn yr achos. Yr oedd yn enedigol o dref Portsmouth, lle y gwelodd oleuni gyntaf ar un o hir ddyddiau yr haf, yr 17eg o Fehefin, 1766, yn agos i 134 mlynedd yn ol. Llifiwr oedd ei dad yn y *dockyard* freninol yn y dref; a rhoddodd ei fab, yr hwn oedd y pryd hwnw yn llanc cryf, iachus, yn brentis gyda saer llongau yn y *yard*, pan nad oedd ond deuddeg oed. Ond ar ol gwasanaethu ei brentisiaeth am dair blynedd, pan yn bymtheg oed, cwrddodd â damwain brudd, yr hon a newidiodd gwrs ei fywyd yn y dyfodol. Trwy gwympo i *dock* sych, torodd a dadgymalodd un o'i forddwydydd, a derbyniodd y fath niweidiau ereill ag a'i gwnaethant yn efrydd am y gweddill o'i oes. Pan adferwyd ef i iechyd gweddol, gallasai ail-ddechreu fel gweithiwr cyffredin yn y *yard*, a chyrhaedd hawl, yn mhen amser, ar ol myned dros ben oedran

gweithio, i dderbyn tâl blynyddol. Ond yn gymaint a bod rhyw reolau newyddion, y rhai ni chymeradwyid gan y gweithwyr, wedi eu dwyn i mewn ar y pryd, ar gynghor ei feistr, dewisodd yn hytrach fynu gweled pa beth a allai wneyd drosto ei hun mewn rhyw ffordd arall. Mewn canlyniad, aeth at hen grydd yn High Street, Portsmouth, i ddysgu ei grefft. Llwyddodd yn lled dda, ac er nad mynych y treiai ei law ar esgidiau newyddion, daeth yn abl i enill cynaliaeth onest wrth gyweirio hen rai; ac o hyn allan adnabyddid ef fel John Pounds y Cobler.

Dros rai blynyddau, lletyai mewn ystafell yn nhŷ perthynas iddo, lle y cariai yn mlaen ei grefft. Ond tua'r flwyddyn 1804, aeth i fyw wrtho ei hun i dŷ estyll yn Mary Street, yr hwn a gynwysai un ystafell ar y llawr, lle y gweithiai ac y cadwai ei ysgol, ac un ystafell ar y llofft i gysgu. Yma y treuliodd weddill ei flynyddoedd, ac yma, yn eistedd ar ei ystôl, ac yn cyweirio hen esgidiau, a thŵr o blant carpiog o'i gylch yn ymroi i'w gwersi, tynid sylw y rhai a basient heibio yn fynych ato. O gylch y flwyddyn 1818, gan mai dyn sengl neu hen lanc oedd, fel ag y parhaodd hefyd trwy ei oes, o ran hyny, ymgymerodd â gofalu am un o blant brawd iddo, yr hwn oedd forwr, a chanddo deulu lluosog. Bachgen bach eiddil oedd, a'i draed o'i enedigaeth, druan, yn plygu ac yn lapio dros eu gilydd tuag i fewn. Dygwyddodd iddo weled pâr o *pattens* haiarn, y rhai a ddarparasai llawfeddyg enwog ar gyfer traed plentyn i gymydog; ac yn gywrain iawn, trwy gysylltu yn nghyd wadnau hen esgidiau, dyfeisiodd efelychiad o'r *pattens*, yr hwn a fu effeithiol i wella traed ei nai bychan. Bu y plentyn hwn yn wrthrych ei ofal a'i serch tyneraf o hyn allan; dygodd ef i fyny, a rhoddodd ef, pan yn ddigon hen, ar brentisiaeth gyda chrydd ffasiynol, a buont byw gyda'u gilydd hyd farwolaeth yr ewythr.

Oblegid ei gloffni, nis gallasai John Pounds gymeryd rhan mewn difyrion yn yr awyr agored. Ond i wneyd i fyny am hyn, difyrai ei hun gartref wrth fagu adar cân, ysgrechau y coed, *parrots*, ac ednod ereill. Dofasai rai ohonynt mor llwyr, fel y chwareuent o gylch yr ystafell mewn perffaith gyfeillgarwch â'r cathod a'r *guinea-pigs* a wnaent i fyny ar brydiau ran o'r teulu. Yn fynych, gwelid y cobler wrth ei waith, a chaneri yn gorphwys ar un ysgwydd, a chath ar y llall. Yn ddiweddarach, pan yr oedd ei ysgolheigion wedi myned yn dra lluosog, cadwai lai o greaduriaid o gylch y tŷ. Y diweddaf o'i adar a fedrent siarad oedd aderyn y drudwy, yr hwn y gwnaeth anrheg ohono i foneddiges yn y dref, am ryw garedigrwydd neillduol o'i heiddo at rai o'i ysgolheigion.

Yr amgylchiad canlynol a'i harweiniodd gyntaf i ymosod ar y gorchwyl o ddysgu plant. Pan oedd ei nai yn bump oed, ymgymerodd â'r swydd o fod yn ysgolfeistr iddo. Yn mhen tipyn, meddyliodd y dysgai'r bachgen yn well pe bai ganddo gwmni. Cafodd yn gyntaf un, ac yna un arall, ac aeth rhagddo, gan ychwanegu yn raddol at y nifer; a mwynhäai gymaint o bleser yn y gwaith, fel y penderfynodd estyn yr un fraint i ereill, y rhai a welai o'i gylch, yn y gymydogaeth boblog a



TY JOHN POUNDS.

thlawd hono, yn gwbl amddifad o addysg. Y cydymaith cyntaf a gafodd i'w nai oedd mab i fenyw dlawd, yr hon a äi o amgylch i werthu pwdin, ac a adawai ei phlentyn digartref, gan ei fod yn analluog i'w dilyn, yn yr ystryd agored, yn nghanol rhew ac eira, heb yr un cysgod oddieithr cysgod ffenestr grom (*bay window*) un o'r tai. Yn raddol, cynyddai ei serch at y gwaith, ac ychwanegai nifer ei ysgolheigion, nes iddo gan bwyll ddyfod yn ysgolfeistr cyffredinol i bawb o'i gylch, y rhai yr oedd eu rhieni yn rhy dlawd neu yn rhy ddiofal i ddarparu unrhyw ysgol arall i'w plant. Yn ei flynyddoedd diweddaf, yr oedd, ar gyfartaledd, ddeugain o blant o dan ei ofal, yn cynwys rhyw haner dwsin o ferched bychain, y rhai a osodai o'r neilldu wrthynt eu hunain.

Yr oedd ei siop waith oddeutu chwech troedfedd o led, a deunaw troedfedd o hyd. Yn nghanol hon, eisteddai ar ei ystol, a'i *last*, neu ei *lap-stone* ar ei arffed, a'i offer ereill wrth ei ochr. Elai yn mlaen gyda'i waith, gan dalu sylw yr holl amser i'r hyn a fuasai pob un yn y dyrfa blant yn ei wneyd. Byddai rhai yn darllen, ereill yn ysgrifenu i'w *dictation* ef, neu yn dangos eu symiau; eisteddai ereill o gylch ar feinciau neu flychau ar y llawr, neu ar risiau *staircase* fechan yn y cefn. Er y gwyddai y meistr pa le i edrych am bob un, a pha fodd i gadw y llywodraeth briodol drostynt oll, eto yr oedd yr ystafell mor gyfyng, ac mor ddiffygiol yn nghyfleusderau arferol ysgol, fel yr ymddangosai yr olygfa i'r sawl a sylwai arni oddiallan yn ddim ond twr didrefn o benau ac o wynebau plant. Gan fod ei le mor fach, gorfyddid ef yn aml i wneyd dewisiad o ryw nifer o blith lluaws o ymgeiswyr i fod yn dderbynwyr o'i addysg rad; a than y fath amgylchiadau, ymfalchïai bob amser i gymeryd mewn llaw "y *blackguards* bychain," fel y galwai hwynt, sef y plant mwyaf anwar a drygionus yn y dref, er eu dofi a'u dysgu. Gwelwyd ef cyn hyn yn canlyn rhai ohonynt i'r cae, ac yn dal allan bytaten bôb yn ei law er tueddu y creaduriaid gwylltion i fyned i'r ysgol.

Ar dywydd teg, danfonai y plant ar gylch i eistedd ar drothwy drws y ffrynt, ac ar fainc fechan oddiallan, er mwynhau yr awyr agored. Yr oedd ei ddull ei hun ganddo i ddysgu, fel y mae gan bob gwir athraw. Nid oedd erioed wedi clywed am Pestalozzi, eto, fel efe, gwnai ddefnydd helaeth o ofyniadau. Dysgai y plant i ddarllen oddiwrth hysbysleni (*handbills*) a gweddillion rhyw hen lyfrau y gallai ddyfod o hyd iddynt. Dim ond ar lechau yr ysgrifenid, ac eto cyrhaeddid gradd deilwng o fedrusrwydd; ac mewn cyfrifon, eid trwy y *rule of three* a *practice* yn ofalus a chywir.

Gyda'r rhai ieuainc iawn, yn enwedig, yr oedd ei ddull yn hynod o lon a digrif. Gofynai iddynt enwau gwahanol ranau eu cyrff, gwnai iddynt sillebu y geiriau, ac egluro defnydd y rhanau. Gan gymeryd gafael yn llaw plentyn, dywedai wrtho, "Beth yw hon? Sillebwch hi." Yna, gan roi yslap iddo, dywedai, "Beth wyf yn ei wneyd? Sillebwch hyny." Yr un modd gyda'r glust, a'r weithred o'i thynu; a'r un modd gyda phethau ereill. Fel y tyfent i fyny, gorfyddid ef i arfer dysgyblaeth lymach atynt; ond llwyddai yn ddieithriad i gadw

eu serch a'u hymlyniad. Yn y ffordd hon, mae canoedd wedi bod yn ddyledus iddo ef am yr holl ysgol a gawsant yn eu bywyd. Derbyniasant y fath addysg, lawer ohonynt, ag a'u cymhwysodd i lanw sefyllfaoedd o ddefnyddioldeb ac o ymddiried; yr hon pe na chawsent, mae yn dra thebyg, ac ystyried y profedigaethau y mae tlodi ac anwybodaeth yn agored iddynt, y buasent yn feichiau ar gymdeithas, a'u henwau yn duo coflyfrau troseddau ein gwlad. Aeth rhai o'i fechgyn i wasanaeth y llynges freninol.

Rai blynyddoedd yn ol, pan yr oedd swydd ysgolfeistr yn yr Ysgol Genedlaethol yn wâg, ceisiodd gan gurad y plwyf ei gymeradwyo ef fel ymgeisydd; ond gan na dderbyniodd yr un gefnogaeth, ni chymerodd un cam yn mhellach yn y mater. Nis gofynodd erioed yr un tâl am ei lafur, ac ni dderbyniodd ddim, oddieithr y pleser a gai yn y gwaith, y boddhad mewn gwneyd daioni, a'r hyfrydwch deimlai pan ar brydiau y galwai rhyw filwr neu forwr gwrol arno, o'i grwydriadau pell, i ysgwyd llaw âg ef, ac i ddiolch iddo am y caredigrwydd a wnaethai âg ef yn ei febyd. Yn wir, cafodd y rhai tlotaf o'i ysgolheigion eu gwaredu yn fynych rhag marw o newyn, trwy ei waith ef yn rhanu â hwynt ei damaid garw.

Peth teilwng i'w goffhau, er anrhydedd oesol i John Pounds, yw ddarfod iddo ddysgu llawer o'r bechgyn i goginio eu bwyd eu hunain, a chyweirio eu hesgidiau eu hunain. Danfonai hwynt i Ysgolion Sabbathol i gael addysg grefyddol; ac mewn trefn i'w calonogi ac i'w galluogi i ymddangos yn weddaidd yno, darparai, trwy help cyfeillion, ddillad iddynt, y rhai yr oeddynt i'w gwisgo yn ei dŷ ar foreuau Sabbathau, a'u dwyn yn ol iddo ef yn yr hwyr. Yr oedd yn feddyg ac yn famaeth i'w braidd bychan; gwnai a allai i wella eu maleithau a'u hanhwylderau ereill, y clwyfau a'r cleisiau, i'r rhai y mae plant tlodion yn wastad yn agored; ac os y byddai ei fedr neu ei foddion ef yn annigonol, galwai ereill i mewn atynt. Heblaw hyn, i'r rhai ieuengaf, nid yn unig llywyddai eu chwareuon, ond hefyd lluniai eu chwareu-bethau a'u teganau. Yr oedd yn gywrain iawn i wneyd *bats* a phelau, bwäau saethu, a *shuttle-cocks*, a phethau ereill o'r fath.

Am hir amser, ni wyddai y cyhoedd ond ychydig neu ddim am ei lafur helaeth ac anhunanol, gan ei fod o ysbryd tra annibynol, yr hyn a'i hataliai rhag ymofyn am help oddiwrth ereill. Yn ddiweddarach, daeth ei deilyngdod yn fwy adnabyddus, a derbyniodd help a fu werthfawr iddo yn ei ymdrechion hunanymwadol. Gwnaethai aml apêl at flaenoriaid yr Ysgol Sabbathol yn nghapel yr Undodiaid yn High Street am dderbyniad i rai o'i ysgolheigion iddi, a chawsai bob tro ateb parod a chroesawgar. Bu hyn yn llawer o gysur a rhwyddineb iddo, a bu yn foddion i ddwyn ei gymeriad rhagorol i fwy o sylw yn mhlith ei gyd-drefwyr. Cai fwy o lawnder o lyfrau a llechau; gwahoddwyd ef a'r holl blant dan ei ofal fagad o weithiau i ysgoldy y capel, i gael eu hadloni ar de a bara brith, pan yr elai y plant hefyd o dan arholiad. Ar achlysur Coroniad ei Mawrhydi, cafodd ef a'i ysgolheigion gyfranogi o'r giniaw gyffredinol yn y dref, oddieithr ychydig o'r rhai ieuengaf, y rhai y darparodd ef ar eu cyfer gartref; a thrwy gydol y prydnawn

rhodiai o amgylch gyda hwynt, fel y gallent gael rhan yn nifyrwch y dydd, yn ddiberygl iddynt eu hunain, a dirwystr i ereill.

Cyfarchodd boneddiges ieuanc ef unwaith, "O, Mr. Pounds, gwyn fyd na fyddech yn gyfoethog : chwi a wnelech gymaint o ddaioni !" Safodd yr hen wr am beth amser, ac yna atebodd, "Wel, nid wyf yn gwybod ; pe buaswn yn gyfoethog, gallaswn, efallai, fod yn lled debyg i gyfoethogion ereill. Hyn a wn—nid oes yn awr ddyn mwy dedwydd yn Lloegr na John Pounds ; ac yr wyf fi o'r farn ei bod hi yn oreu fel y mae."

Nid oes genym ond ychydig eiriau yn rhagor i'w dyweyd. Ar ol oes o hir a dyfal ymdrech yn y ffordd hon, cymerwyd ef ymaith yn ddisymwth o faes ei lafur, ac o fysg ei ewyllyswyr da, pan yn ei drydedd flwydd ar ddeg a thriugain, ar ddydd Calan, 1839. Pan wedi galw ar foneddwr o'r enw Mr. Carter, ac yn ymddyddan âg ef ar faterion cysylltiedig â'i ysgol, syrthiodd i lawr yn ddisymwth, fel pe mewn llewyg. Ond yr angeu oedd, ac ni churai y galon wresog ddyngarol hono'n hwy. Dymunai Mr Carter ar i holl dreuliadau y claddu gael eu dwyn ganddo ef. Dygwyd y corff i'r hen ystafell a fuasai faes ei garedigrwydd a'i ymdrech gymwynasgar am flynyddau meithion. Yr oedd rhyw ddeg-ar-hugain o'r plant yno yn dysgwyl am dano, ac yn synu pa beth a ddaethai o'u hanwyl athraw. Pan welsant fachgen bychan o'r enw Ashton, yr hwn a gymerasai ei athraw gydag ef yn gydymaith, yn dychwelyd, dywedasant : "Dyma Ashton yn dyfod—bydd Mr. Pounds yma'n union !" Erbyn hyn, yr oedd Ashton wedi dyfod a dywedyd : "Mae Mr. Pounds wedi marw, ynte wedi llewygu." Pan glywodd ei nai y geiriau hyn, brysiodd i lawr o'r llofft, ac wrth wel'd corff ei ewythr yn cael ei gludo i fewn, syrthiodd mewn llewyg, o'r hwn nis dadebrodd am dro i deimlo maint y golled a gawsai, ac i dywallt dagrau serch uwchben, a gwneyd pob gwasanaeth tyner ag a allai, i lwch dideimlad ei gymwynaswr goreu ar y ddaear. Enhuddwyd y gymdeithas fechan mewn niwl a thywyllwch ar unwaith. Llanwyd y plant o fraw a galar. Daeth rhai ohonynt tua'r drws y dydd canlynol, gan wylo, am nad allasent gael myned i mewn i'r ysgol ; ac am fagad o ddyddiau yn olynol, deuai y plant ieuengaf yn ddau a thri yn nghyd, ac ar ol edrych o gylch yr ystafell, a methu a gweled eu cyfaill yno, tröent draw yn siomedig a galarus.

Un o dymher fwyaf siriol, boddlongar, a dedwydd oedd John Pounds. Ei hyfrydwch penaf oedd gweled ereill yn gysurus a llwyddianus. Yr oedd wedi arfer dymuno cael marw heb hir gystudd : "Syrthio," fel y dywedai, "fel aderyn oddiar ei glwyd ;" a chafodd ei ddymuniad. Prydnawn dydd Sadwrn, y 5ed o Ionawr, 1839, rhoddwyd ei weddillion marwol i orphwys yn mynwent y Capel Undodaidd yn High Street, lle yr arferai yn ystod ei flynyddau diweddaf fyned i addoli, er nad oedd wedi ymuno fel aelod proffesedig â'r eglwys hon nac âg un eglwys arall. Nos dranoeth, traddododd y gweinidog, y Parch. Henry Hawkes, B.A , ei bregeth angladdol oddiwrth Matt. vi. 3, 4. Ar fur y capel, y mae coflech fechan o fynor wedi ei chodi iddo

gan ei gyfeillion, yn benaf trwy danysgrifiadau ceiniog. Mae hefyd lyfrgell wedi ei sefydlu yn y capel er coffadwriaeth am dano.

Ymgynyg llawer o wersi dwys a buddiol i'r meddwl oddiwrth hanes y dyn da hwn; ond gadawn i'r darllenydd eu tynu drosto ei hun. Pan duedder neb i ymesgusodi rhag gwneyd ei oreu yn y cylch y mae ynddo, cofied am John Pounds, y Cobler, a chlywed lais o'r siop fach lwydaidd hono yn St. Mary Street, Portsmouth, yn ei gyfarch: "*Dos, gwna dithau yr un modd.*" W. T.

AR FARWOLAETH MR. M. H. WILLIAMS, BRYNGWYN, ABERDAR,

Yr hyn a gymerodd le Rhagfyr 2il, 1899.

GOLLI cyfaill hoff a wnaethom, cyfaill anwyl iawn i mi;
A'r trigolion a'i hadwaenai roddent iddo uchel fri;
Y mae colyn creulawn angeu'n cwympo pawb'r un modd i lawr;
Nid oes neb a ddeil ei saethau—hen nac ieuanc, bach na mawr.

Ar ol goddef mawrion boenau am ryw 'chydig ddyddiau bron,
Cafodd Morgan, ein hoff gyfaill, mado'n llwyr â'r babell hon.
Colled fawr oedd i drigolion golli cyfaill oedd mor fad;
Nid yw hyny ond brycheuyn, pan ystyriom fam a thad.

Yn Aberdar mae'r dawel gladdfa lle mae Morgan wedi myn'd;
Yn fuan iawn daw'n hamser ninau cawn gyfarfod â'n hen ffrynd;
Caled iawn oedd troi ein cefnau ar ei feddrod, dilys yw;
Ond ymostwng dan y drefn sydd yn rhaid i ddynolryw.

Dyma rybudd mawr a phwysig, cyn y byddom ni dan glo,
Fod ein diwrnod ninau'n aros fyddo'n wastad ar ein co;
Geiriau'r Iesu sy'n rhybuddio ni ymadael â'r byd ffol,
Canys yn yr awr ni thybioch y daw Mab y Dyn i'ch hol.

Roath, Caerdydd. J. ENOCH.

OS na fydd genym dawelwch yn ein meddyliau ein hunain, ni wnaiff cysuron allanol ddim mwy drosom nag a wnaiff botas â bwcwl aur i droed â'r gymalwst (*gout*) ynddi.—*John Bunyan.*

DR. JAMES MARTINEAU. *

Ganwyd Ebrill 21*ain*, 1805. *Bu farw Ionawr* 11*eg*, 1900.

Y MAE Dr. James Martineau, "y sant a'r athronydd," fel y geilw y *Christian World* ef, wedi gorphen ei ddaearol yrfa, a'i flynyddoedd a'i anrhydedd yn llawn. Y fath flynyddoedd! pedwar ugain a pymtheg ohonynt, ac nid oedd dydd ohonynt wedi bod yn segur, na dydd wedi ei gamddefnyddio. Pwy na charai o ben Moriah yn Nghaersalem gael y fath ol-olwg ar ei daith drwy yr anialwch ag oedd yn bosibl iddo ef? Mor llawn o waith a gwasanaeth o'r fath oreu!

Ganwyd Dr. Martineau o deulu Huguenotaidd. Gorfu i Gaston Martineau, fel llawer ereill, ffoi o Ffrainc o achos erledigaeth. Meddyg oedd wrth ei alwedigaeth, a chawn iddo briodi Mary Pierre, ac ymsefydlu yn Norwich, yn 1693. Ohono ef, yn y bedwaredd genedlaeth, y ganwyd Thomas Martineau, masnachwr cyfrifol yn Norwich (ond nid masnachwr gwin, fel y mae rhai wedi dywedyd), yr hwn a briododd Elizabeth, merch Robert Rankin, o Newcastle-on-Tyne, menyw o dymher fwyn a serchog, ac o alluoedd mwy dysglaer na'r cyffredin; a dyma rieni James. Bu iddynt wyth o blant, o'r cyfryw yr oedd Harriet yn chweched, a James yn seithfed. Bedyddiwyd ef gan y Parch Pendlebury Houghton. Dywedir fod amgylchiadau y cartref hwn yn hollol y peth a fyddai'n boddloni Agur, cartref heb na thlodi na chyfoeth. Yr oedd y fam, fel y dylai mam bob amser fod, yn haul yn ffurfafen y teulu, yn dysgleirio yn gyffelyb ar bob un. Yr oedd y ddysgyblaeth grefyddol yn fwy llym nag yw yn arferol o fod heddyw. Adroddir am y fam un Sul yn myned i'r cwrdd, ac yn gadael y plant gartref, gyda'i wers i bob un. Pan ddychwelodd, gofynodd i James beth oedd wedi ddarllen; atebodd yntau, "Esaiah." "Beth, ddarllen-asoch chwi ddim o Esaiah i gyd?" "Do, mam, ond i mi *scipio'r nonsense.*" Yr oedd yr ysbryd beirniadol yn effro eisoes ynddo. Nid felly, nid gyda'r llygaid meddyliol yn agor, y darllenir gan bawb, hyd yn nod heddyw. Yr oedd y teulu yn amlwg wedi llithro yn mhell oddiwrth angorfeydd Calfinaidd eu tylwyth Huguenotaidd.

Yr oedd yn Norwich Ysgol Ramadegol oddiar y 14eg ganrif, ac yno y bu ein harwr yn ysgolia o 10 hyd 14 oed Trwsgl oedd y driniaeth a gafodd yno lawer pryd—yn enwedig ar law y plant. Yr oedd efe wedi ei ddwyn i fyny yn dyner ac yn foneddigaidd gartref, fel yr oedd yn anhawdd ganddo ddygymod âg ymddygiad blagardaidd chwareufa ysgolion cyhoeddus y dyddiau hyny. Dysgodd ddarllen Groeg a Lladin, fodd bynag, yn ogystal a'r Ffrancaeg; ond ei hoff efrydiaeth oedd celfyddyd rhif a mesur, i'r hyn nid oedd ond cyfleusdra

---

* Ymddangosodd Darlun o'r gŵr enwog hwn yn rhifyn Awst, 1899.

tlawd yma. Symudodd yn 14 oed i ysgol y Dr. Lant Carpenter i Fryste. Siaradai bob amser yn y modd mwyaf parchus am gyfleusderau ardderchog y ddwy flynedd y bu yno. Teimlodd holl adnoddau ei fywyd yn cael eu cynhyrfu i'r gwaelod.

Yn 16 oed, gorfu arno fyned i ddysgu ei grefft, ac aeth i Derby, er mwyn bod yn beirianydd (*engineer*). Ychydig gafodd efe yma i gyfarfod â gofynion natur mor eang a'i eiddo ef. Yr oedd holl awyrgylch y siop waith yn rhy faterol i foddio ei ysbryd ef. Yn ffodus hefyd yr oedd swyn ei hen athraw arno. Marwolaeth anamserol y Parch. Henry Turner, yn 1822, yr hwn oedd wedi priodi cyfnither iddo, ddarfu frysio'r penderfyniad i'w symud oddiwrth y ffwrwm waith i'r pwlpud. Yr oedd ei benderfyniad yn siomedigaeth i'w rieni, y rhai a deimlent ei fod yn dewis bywyd o dlodi o flaen llwybr i anrhydedd. Bu am bum' mlynedd yn y Coleg, a gweithiodd yn galed—yn anghymedrol galed, yn ol tystiolaeth un o'i athrawon. Yr oedd drysau Rhydychain a Chaergrawnt heb eu hagor eto i Anghydffurfwyr, fel yr oedd yn rhaid boddloni ar y goreu ellid gael y tu allan.

Yn 1827 cafodd drwydded i bregethu, ond aeth am flwyddyn yn gyntaf i gynorthwyo ei hen athraw yn ei ysgol yn Bryste. Rhagfyr 18fed, 1828, priododd Helen, chwaer y Parch Edward Higginson, wedi hyny o Abertawe. Yr oedd wedi ei ordeinio cyn hyny, Hydref 26ain, 1827, yn ol y dull Presbyteraidd, yn Dublin, i fod yn gydweinidog âg un Joseph Hutton. Bu'n hapus iawn yma am dymhor. Fel cynorthwywr, syrthiai baich y gwaith arno ; ond gan ei fod yn waith a anwylai, cyflawnai ef gyda phleser. Nid oedd yn boblogaidd fel pregethwr, ond yr oedd ganddo air oedd yn gwefreiddio i'r sawl oedd o ysbryd difrifol. Yr oedd ffresni ieuenctid ar ei wyneb, addfedrwydd doethineb ar ei wefusau, a goleuni athrylith yn ei lygad.

Yn mhen tair blynedd bu farw y *senior pastor*, Mr. Hutton, a chododd anhawsdra a fu'n achos iddo symud. Cynelid yr achos crefyddol yn rhanol drwy y *Regium Donum*,—math o dreth oedd wedi ei thalu i Bresbyteriaid yr Iwerddon am 150 o flynyddau fel iawn neu *gompensation* am y degwm oedd wedi ei gymeryd oddiarnynt. Buasai yn ychwanegiad o gan' punt yn y flwyddyn i'w gyflog ; ond nid iawn yn ei dyb ef oedd trethu'r Pabyddion i gynal crefydd oedd yn groes i'w cred ac yn groes i'w teimlad. Ceisiodd gan y gynulleidfa i ymwrthod â'r dreth. Dygwyd y mater i fôt, a chollodd Martineau drwy un fôt yn unig. Yn ffyddlon i'w gydwybod, ymddiswyddodd ar unwaith. Yr oedd gwerth *property* yn y dref wedi lleihau, fel y collodd arian wrth werthu ei dŷ. Gyda baich o ddyled, a theulu o rai bychain, ac heb un alwedigaeth, aeth allan i wynebu byd tywyll.

Yn 1832, blwyddyn y *Reform Bill*, cafodd wahoddiad i Liverpool i fod yn gydweinidog â John Grundy. Nid hir y bu cyn tynu sylw yno, a chynyddodd ei ddylanwad yn gyflym, nes cododd eiddigedd yn mynwesau offeiriaid y dref, y rhai a wnaethant—bump ohonynt gyda'u gilydd—ymosodiad chwerw ar Undodiaeth. Atebwyd hwy gan Martineau, J. H. Thom, a Henry Giles. Dyma ddadl Liverpool.

Cyhoeddwyd *Unitarianism Defended* yn gyfrol fawr drwchus yn 1839, ac y mae yn werth i'n pobl ieuainc ei darllen hyd yn nod heddyw. Yn 1848, bu'n rhaid cael capel mwy. Gyrwyd Mr. Martineau ar bymtheg mis o wyliau, ac aeth i'r Almaen, lle y bu yn efrydu yn galed, ac yr aeth drwy fath o enedigaeth ddeallol newydd—"A new intellectual birth"—ebe fe. Yn Hydref, 1849, dychwelodd i Liverpool, a gwasanaethodd yno am wyth mlynedd yn ychwaneg Yr oedd wedi bod yn athraw mewn Athroniaeth Meddwl a Moes yn Manchester New College oddiar 1840. Elai yno o Liverpool ddwy waith yn yr wythnos. Yn 1853, symudwyd y Coleg i Lundain, a pharhaodd Mr. Martineau am dymhor i fyned i Lundain bob wythnos; ond trodd y gwaith yn ormod iddo—cafodd *break-down*, a bu raid iddo ddewis pa un a roddai i fyny. Yn 1857, ar ol 25 mlynedd o wasanaeth gwerthfawr, cefnodd ar Liverpool gyda theimlad o dristwch. Yr oedd gwerth arianol y sefyllfa yn Liverpool yn fwy. Yn 1859, cymerodd ef a'i brithathraw, J. James Tayler, at ofal eglwys Little Portland Street, fel olynwyr i Mr. Tagart. Yn 1861, ymddiswyddodd Mr. Tayler, a bu farw yn 1869. Parhaodd Martineau hyd 1873, ac olynodd Tayler fel prifathraw'r Coleg. Yn Mai, 1871, clywodd ysgrifenydd y llinellau hyn ef yn pregethu—yr unig dro. Nid oedd dim yn hynod i weled o 40 i 60 o gerbydau yn dwyn gwrandawyr yno y blynyddoedd hyny. Capel diolwg ddigon oedd y capel, ond yno yr elai rhai o ddynion mawrion Llundain, o bob dosbarth, o Sul i Sul, i wrando—yn *Lords* ac yn fonedd, yn feddygon ac yn gyfreithwyr, yn wyddonwyr ac athronwyr, &c.

Yn 1866, cynygiodd ei hun fel ymgeisydd am Gadair Athroniaeth Coleg Prifysgol Llundain. Ystyrid hwn yn Goleg rhydd ac agored. Penderfynodd y *Senatus* mai Martineau oedd y goreu o'r ymgeiswyr; ond gwrthododd y Cynghor (y *Council*) gadarnhau y perderfyniad, am ei fod yn Undodwr—y bleidlais yn ei erbyn yn wyth ar gyfer chwech. Rhoddwyd y Gadair i Mr. Croom Robertson, yr hwn sydd wedi marw, a'i enw a'i waith wedi eu hanghofio er's blynyddau. Parodd ymddygiad y Cynghor i Proff. De Morgans, yr enwocaf o athrawon y Coleg, i ymddiswyddo. "Yr oeddynt wedi ymwadu âg egwyddor y Coleg yn y modd mwyaf gwarthus," ebe efe. Nid oedd De Morgans yn un o ddysgyblion Martineau.

Pan ymddiswyddodd o'r weinidogaeth, rhoddodd cant o'i gyfeillion yn Portland Street *service of plate*, a phwrs o £5,800 iddo, a'r gynulleidfa tua'r un amser £3,500. Ar ol 45 mlynedd o wasanaeth fel athraw, rhoddodd ei swydd yn y Coleg i fyny, yn 1884, pan y cyflwynwyd anerchiad iddo; ac ar lawer pen blwydd ar ol hyny, cafodd anerchiadau cyffelyb. Ebrill 21ain, 1888, anfonwyd un iddo wedi ei lawnodi gan 600 o gynrychiolwyr llenyddiaeth, athroniaeth, a gwyddoniaeth, gan athrawon Prifysgolion Lloegr, Ysgotland, Iwerddon, Ffrainc, Holland, a'r Amerig, gan aelodau Cydffurfiol ac Anghydffurfiol ein gwlad, gan offeiriaid a phregethwyr o bob enwad, gan brifathrawon ysgolion cyhoeddus, a chan aelodau o ddau Dŷ y Senedd. Dipyn yn hwyrfrydig y bu'r Colegau yn cofio am dano.

Havard, U.D.A., ddechreuodd drwy ddanfon LL.D. iddo yn 1872; anfonodd Leyden S.T.D. yn 1875; Edinburgh D.D. yn 1888; a Rhydychain D.C.L. yr un flwyddyn; Dublin D.Litt. yn 1892.

Fe welir mai cofion am Dr. Martineau yn bersonol sydd yn yr erthygl hon yn benaf. Dylid cael erthygl arall ar ein gwrthrych fel pregethwr, duwinydd, ac athronydd. Claddwyd ef dydd Mawrth, yr 16eg o Ionawr, yn Highgate *Cemetery*. Bu farw Harriet, ei chwaer, yr hon oedd wedi cyrhaedd enwogrwydd mawr yn ei dydd, yn 1876, a'i wraig, Mrs. Martineau, yn 1877. Dechreuodd Dr. Martineau glafychu yn fuan ar ol y Nadolig. Yr oedd ei ddwy ferch weddw yn yr *influenza* ar y pryd, a'i ferch hynaf, Mrs. Leyom Lewis, wedi dyfod yno i weini arnynt. Bu farw Mrs. Lewis Ionawr 4ydd, a Dr. Martineau ar yr 11eg, yn dawel a diarwybod i neb.

BARN Y CYHOEDD.

Wrth ddychwelyd ar ol gwrando ar y fath bregethau, yr oedd cartref a'r bywyd dyddiol, ar ol edrych arnynt o'r uchderau fry, yn syrthio i'w lle priodol. Yr oedd Gofal yn myned yn fach, Dyledswydd yn myned yn fawr, a Serch yn myned yn fwy nerthol a mwy ardderchog, a thrwy gydymdeimlad yn dyfod yn Ddwyfol ac yn anfarwol. Nid cyn i'r pregethau hyny, pregethau nas anghofir byth mohonynt, ddyfod i derfyniad sydyn, y daethom i wybod pa gymaint oeddynt wedi cyfrif yn ein bywydau mewnol. Yr oedd ffenestr yn ein hystafell wedi ei chau am byth, a hono yn debyg i'r un yn y tŷ a elwir Prydferth, yn gwynebu Codiad Haul.—*Frances Power Cobbe.*

Y mae yr adgof am dano yn gysegredig, ac etifeddiaeth ei feddwl yn aros, nid yn unig yn feddiant i'r eglwys a garai, ond yn drysor yn perthyn i lenyddiaeth grefyddol yr holl fyd.—*Frank Walters.*

Y mae dylanwad ei fywyd hir ac ardderchog wedi cael ei deimlo mewn cylchoedd sydd yn byth-eangu; ac er fod ei ffyddlondeb i'w argyhoeddiadau wedi ei dori oddiwrth eglwysi poblogaidd mawrion, nid yw ei ffydd aruchel, a'i feddwl dwfn, a'i feirniadaeth dreiddiol ddim wedi eu gadael hwy heb eu cyffwrdd, ond y mae wedi cyfranu nid ychydig i'r olwg eangach, i'r ysgolheigiaeth fwy trylwyr, a'r dôn fwy Cristionogol sydd yn eu nodweddu heddyw; a llawer i enaid trallodus sydd wedi cael yn ei athroniaeth ysbrydol, neu yn mewnwelediad dwfn ei bregethau, orphwysdra oddiwrth ddyryswch ac amheuaeth meddwl.—*Y Prifathraw Dr. Drummond.*

Wrth fwrw golwg yn ol fel dysgybl am haner can' mlynedd, yr wyf yn teimlo mai yr hyn sydd wedi llefaru yn fwyaf byw wrth fy nheimlad i fy hun o wirionedd a phrydferthwch yw cariad a pharch dwfn Martineau at y "dyn Crist Iesu."—*W. H. Herford.*

Nid oes un amgylchiad yn ein sefyllfa yn rhoddi i ni ymwybyddiaeth mor nerthol a hwn—fod genym yn James Martineau arweinydd

yr hwn, o ran dyfnder duwioldeb ei galon, sydd yn gydradd âg à Kempis, Tauler, a Wesley ; a'r hwn fel nerth dealldwriaethol sydd yn rhaid cael ei gyfrif fel un yn mhlith enwau mwyaf amseroedd hen a diweddar.—*P. L. Jacks.*

Y mae bardd diweddar wedi canu am y modd y byddai Tennyson yn cael ei roesawu ar draeth y byd a ddaw, mor falch y byddai Dantè i siglo llaw âg ef, a Milton a Wordsworth yn ei wahodd i fewn i'r cartref nefol. Nid llai ei rif yw y cwmni oedd yn aros y meddyliwr hynafol—Martineau—yn ngwlad yr anfarwolion.—*Dr. Hicks.*

Tuhwnt i amheuaeth, Dr. Martineau yw meddyliwr penaf yr oes.—*William Ewart Gladstone.*

Pe buaswn i yn rhydd, buaswn yn yr angladd, i ddwyn tystiolaeth i'm diolchgarwch am y gwasanaeth anghymarol a wnaethpwyd i Gristionogaeth, ac i achos crefydd, gan un o ddynion mwyaf y ganrif. Y mae wedi pasio i'r byd anweledig, ond erys ei waith i ddwyn ffrwyth yn ddiderfyn.—*Dr. Clifford* (*B.*).

Yn 1841, sylwodd John Stuart Mill fod rhyw newid yn null addysg Martineau, a dymunodd arno gyhoeddi ei olygiadau "ar y pynciau mawrion hyn. Nid wyf am aros nes byddo'r darlithiau wedi eu cyhoeddi—canys fe'u cyhoeddir rywbryd—ond gall y byddaf fi cyn hyny yn myfyrio'r pynciau mewn cyflwr arall o fodolaeth." Cyhoeddwyd hwy yn 1885, flynyddoedd wedi marw Mill ; ac am danynt fe ddywed y *Times* eu bod yn ffurfio y llyfr mwyaf gwreiddiol sydd wedi ei gyhoeddi yn y wlad hon oddiar 1726, blwyddyn cyhoeddiad *Sermons of Human Nature* gan Esgob Butler.

Yn y flwyddyn 1839, gwelodd y Parch. Fielding Ould yn briodol i wneuthur ymosodiad ffyrnig ar enwad Mr. Martineau. Haner can' mlynedd yn ddiweddarach, cyflwynwyd anerchiad o barch a diolch iddo gan gynrychiolwyr bron pob enwad, a phob *school of thought.*—*Christian World.*

Safai allan, ac ar wahan, oddiwrth ddynion o bob eglwys, ac eto yr oedd efe ei hun yn Undodwr pendant ac o argyhoeddiad. Yr oedd pawb sy'n alluog i werthfawrogi gallu ysbrydol pur a charitor crefyddol, yn canfod, er gwaethaf pob gwahaniaeth duwinyddol, eu bod yn cael ynddo ef ddyn o ysbryd crefyddol cydrywiog, ac nad yw cynefindra agosach â'i ysgrifeniadau ond yn helpu i gadarnhau yr argraff a ffurfiwyd felly am dano—ffyddlondeb i'r gwir, symlrwydd anghyffredin ei garitor, delfryd uchel ei grefydd, a defosiwn dwfn ei ysbryd.—*Dr. Rogers* (*A.*).

GALLAF yn rhwydd gydymdeimlo â'r brawd hwnw yn New Hampshire, a wylai, yn bedwar ugain a thair ar ddeg oed, am fod ei dad a'i fam wedi marw, ac yntau wedi ei adael yn amddifad. Mae wylo yn naturiol i ddyn ; mae wylo yn iechyd, wylo yn gymedrol ; eithr na wyler fel rhai heb obaith.

Y PARCH. STOPFORD A. BROOKE, M A., LL.D.

TRADDODODD y gwr parchedig uchod bregethau grymus, nerthol, ac addysgiadol, yn Nghapel Undodol Abertawe, ar yr 17eg o'r mis olaf yn y flwyddyn ddiweddaf. Yr oedd y capel yn orlawn, a sylwasom gydag hyfrydwch ar gynifer o aelodau cyfrifol perthynol i bob enwad yn bresenol. Aed trwy y rhanau rhagarweiniol o'r gwasanaeth gan y gweinidog, y Parch. W. Tudor Jones. Dymunwn ei longyfarch ar ei lwyddiant yn graddio yn F.R.G.S., "*Fellow of the Royal Geographical Society.*" Y mae'r gweinidog a'i briod hawddgar, yn Abertawe, yn gweithio'n ddiwyd a chydwybodol gyda'r achos, ac yn ddiamheu teilyngant bob bendith a llwyddiant gyda'u gwaith. Yn ystod llawer o fisoedd dysgodd Mrs. W. T. Jones y plant i berfformio chwareuran, ac yn Shaftesbury Hall, aed trwy y cyfryw yn hynod o fedrus. Y mae clod yn ddyledus i Mrs Jones am ei hymdrechion diflino. Yn hytrach na chrwydro rhagor, dychwelwn at wrthrych ein penawd.

Ganwyd Stopford Augustus Brooke, yn Letterkenny, Donegal, yn 1832. Derbyniodd ei addysg foreuol yn Kedderminster, Kingstown, ac aeth oddiyno i Goleg y Drindod, Dublin. Yn y coleg enillodd y gwobrau canlynol: Y "Downe," mewn duwinyddiaeth, a'r "Vice-chancellor," mewn Barddoniaeth Seisonig. Graddiodd yn B.A. yn 1856, ac yn M.A yn 1858. Eglwyswr oedd Mr Brooke ar y dechreu, ond yn 1880 ffarweliodd â r Eglwys Sefydledig, a chanodd yn iach i'w chredoau a'i chyffesiadau ffydd. Bu yn gweinidogaethu gyda llwyddiant mawr yn y manau canlynol:—Curad yn St Matthew, Marylebone, o 1857—1859; curad yn Kensington, o 1860—1863; gweinidog yn Nghapel St. James, Llundain, o 1866—1875; a gweinidog yn Bedford, Bloomsbury, o 1876—1894. Yn y flwyddyn 1872, apwyntiwyd ef yn Gaplan i'r Frenines, ac hefyd i'r Dywysoges Frederick. Er fod y gŵr galluog a medrus yn esgyn i safle uchel yn yr Eglwys Sefydledig, eto bu yn ffyddlon i'w argyhoeddiadau dyfnaf. Gadawodd gyfeillion, cyfoeth, anrhydedd Eglwysig, a safleoedd uchel, er mwyn gonestrwydd gyda phynciau a daliadau crefyddol. Dylem deimlo'n ddiolchgar am ddynion gonest fel Dr. Brooke, a charasem wel'd ereill yn dilyn ei esiampl glodwiw. Y mae wedi cyhoeddi cyfrolau o bregethau a llyfrau ereill, ac adnabyddir ef heddyw fel pregethwr, bardd, a llenor o'r iawn ryw.

Pwy bynag gafodd y fraint o wrando arno yn Abertawe, rhaid iddo gyfaddef fod dyn mawr yn y pwlpud, ac hefyd iddo bregethu pregethau mawr. Boreu Sul ei destyn oedd, Matt. xxii. 32: "Nid ydyw Duw Dduw y meirw, ond y byw." Eglurodd ymddygiad y bobl tuag at Iesu yn ystod Ei fywyd cyhoeddus. Ni welodd yr Iuddewon Iesu, meddai; edrychasent yn ol i'r gorphenol, ac yn mlaen i'r dyfodol, heb astudio eu "presenol" o gwbl.

Yr oedd Iesu yn dysgu yr athrawiaeth fawr a phwysig o bresenoldeb Duw, ond ni sylweddolodd yr Iuddewon hyny. Nid Duw y gorphenol ydyw, oblegid mae'r gorphenol allan o'n gafael; nid Duw y dyfodol hefyd, oblegid mae'r dyfodol heb ei eni. Duw y presenol ydyw ein Duw ni. Mae dynion heddyw yn nghanol eu hymchwiliadau a'u hathrawiaethau yn methu adnabod Duw fel bywyd ac ysbryd pob peth, am eu bod yn ymddibynu gormod ar y gorphenol, ac yn ymddiried yn ormodol yn y dyfodol heb astudio eu presenol. Ond astudio y presenol gyda gradd o onestrwydd, fe adnabyddir Duw fel Gallu, Daioni, a Chariad Hollbresenol. Yna dywedodd nad oedd angen seremonïau a defodau er cael gafael yn Nuw, ac er mwyn Ei ddwyn yn nes atom. Mae Duw, meddai, yn enaid pob dyn; yn enaid y pechadur, fel tân yn llosgi, nes peri iddo, hwyr neu hwyrach, i lefain allan, "Mi a godaf, ac a äf at fy Nhad." Nid ydyw yn rhyfedd i'r Iesu ddyoddef marwolaeth y Groes, oblegid dadwreiddiai yr athrawiaethau poblogaidd. Mae'r dynion sy'n cyhoeddi eu hanathema uwchben y rhai a elwir yn Hereticiaid yn ail-groeshoelio Iesu.

Yr oedd y bregeth yn fyw o'r athrawiaethau mwyaf urddasol am Dduw a dyn, ac nis gallem lai na gwaeddi "Haleliwia" wrth wrando arno. Yn yr hwyr, pregethodd oddiar y testyn a welir yn 2 Thes. v. 5, 6. Pregeth nerthol eto. Wele grynodeb byr o'r cyfryw:—Paul yn gweled ail-ddyfodiad Iesu yn y cnawd. Dyna oedd ei gredo yn ddiamheu. Ni ddiwallwyd ei obeithion. Yr oedd ei feddyliau yn rhy ddaearol ar y cwestiwn. Eglurodd ail-ddyfodiad Iesu mewn ystyr ysbrydol a moesol. Fel mae hen ddefodau, seremonïau, a'r anifail yn diflanu, mae Iesu yn cael ei ail-eni yn y byd. Mae Iesu o ran Ei ysbryd a'i Efengyl yn y byd heddyw yn galw ar bawb i dd'od i fyny o'r tywyllwch i'r goleuni. Rhoddodd anogaeth wresog i bawb i fyw y bywyd goreu, fel y deuai ysbryd a meddwl Iesu yn eiddo iddynt. Nid ydym yn gwneyd chwareu teg â'r pregethau fel hyn; carasem eu cyflwyno i sylw y darllenwyr yn gyflawn, ond mae hyny allan o'r cwestiwn. Mewn gwirionedd, yr oeddynt yn bregethau *capital;* ac yn ddiddadl mae angen rhagor o'u bath yn mhwlpudau Cymru. Deallwn fod Dr. Brooke yn dyoddef oddiwrth anwyd trwm; gweddïwn am iddo gael adferiad buan i'w gynefinol iechyd.

UN OEDD YNO.

EDRYCH AR Y GWYNT.

NAD pa ffordd bo'r gwynt yn chwythu,
Mae rhywrai'n falch ei bod hi felly;
Chwythed felly o'r man y myno,
Goreu fydd nad o b'le delo.

Adsain T.C.U.

PAPYRAU AP CYNON.

Wedi eu Harchwilio a'u Dethol gan

HIRFAEN RHYS.

VI.

Dadblygiad.

AM syniadau crefyddol ein hen ffrynd, anhawdd gwneyd un casgliad cywir a diamheuol. Ei fod o duedd adfyfyrgar, ïe, yn bruddglwyfus feddylgar, sydd erbyn hyn yn amlwg i unrhyw un ag sydd wedi bod o'r amynedd i ddilyn y tudalenau hyn. Yr oedd yn ddarllenwr aiddgar ar bob cangen o wybodaeth a ddelai dan ei sylw; a chan na fu erioed yn berchen rhyw gyflawnder helaeth o lyfrau, nid oedd ganddo ddim i'w wneyd ond darllen drosodd a throsodd yr un cyfrolau, a phigo yn dra gofalus, hyd eithaf ei wybodaeth, lenyddiaeth fwyaf cynrychiolaethol yr ieithoedd hyny ag yr oedd ef yn gynefin â hwynt.

Fel y mae y mwyaf treiddgar o'n darllenwyr yn ddiamheu wedi sylwi eisoes, y mae aml frawddeg a ddyfynwyd o'r Papyrau â sawr frwmstanaidd y Bardd Cwsg yn dra nodweddiadol ohoni; llinell arall a ddengys yn amlwg "feddwdod mwyn" y gwin nerthol-felus hwnw a ddistylliodd Keats o flodau'r greadigaeth; ac ambell i waith, lled-dybiwn weled drychiolaeth meddylddrych a gafodd fôd mewn myfyrgell anghysbell yn yr Almaen ddwfn-ddysg draw.

Y mae yn ddilys genym fod fferylleg, anianeg, bywydeg, a llawer o *egau* ereill, yn ffurfio rhan o ddodrefn meddyliol Ap Cynon; er ei bod yn amheus genym a gafodd ei gyfaill mwyaf mynwesol erioed y fraint a'r anrhydedd o gael cipolwg eglur ar ystafelloedd ei feddwl ef. Gyda Charlyle, cred Ap Cynon oedd mai *aur* oedd *dystawrwydd*: mai *rhinwedd* fwyaf y natur ddynol oedd *dirgelwch*. Fel y wenynen, yn y tywyllwch yr hoffai efe weithio oreu. Nis gellir myned i fewn i gysegr sancteiddiolaf enaid dyn heb ddifwyno y grisiau euraidd: y mae ymweliad y cyfaill goreu yn halogi yr ystafell glaerwen am b th.

Meddai ein hen gyfaill gariad diragrith at wybodaeth; cariad dystaw ac *an*-Phariseaidd. A defnyddio hen, hen ffugyr, afon ddofn, lawn, hamddenol, oedd; yn cymeryd amser hyd y daith i graffu ar bob porfēyn a blod'yn, a choeden ar ei thaith; ac â gwyneb tawel a llyfn yn adlewyrchu nefoedd a daear yn gywir, heb na chrych na charn i anurddo perffeithrwydd y darlun. Yr oedd ei natur fel y gwydr di-liw, tryloew, yn derbyn gwirionedd yn ei holl wynder digymysg a chynefin; ac fel y gwydr un-trwch, ni fyddai byth yn *mwyhau* neu *leihau* pwysigrwydd gwirioneddau, eithr gwelai bobpeth yn ei faint a'i berthynas briodol,

Ni faem yn dysgwyl, ynte, am Galfiniaeth gul yn ei ysbryd eang ef—y Galfiniaeth Gymreig hono sydd aml yn gyffelyb i "gwm cam ceiliog" preswylfa ei dilynwyr selog. O'r tu arall, cawn ei fod yn edrych hyd yn nod ar y culni hwn mewn ysbryd tawel, goddefol, os nad yn wir gydag ychydig ddymunoldeb mewnol. Yn hyn oll, yn ddiamheu, yr oedd ei olwg eang ef yn gallu gweled dadblygiad pethau gwell yn y dyfodol draw: o dan y brwdfrydedd cul, sectyddol, gwelai efe Phœnix newydd yn cael ei hadeni, sef crefydd burach, ledaenach, yn ymadenu tuag awyr ddigwmwl y dyfodol pell. Gyda hynyna o eglurhad, yn y man cawn weled tueddbeniad cynwys y Papyr a ganlyn. "Y mae yn ffaith wyddonol," dywed; "yn wir, *y* ffaith fwyaf nodedig o'r holl ffeithiau nodedig a gloddiodd y ganrif oleu hon, fod pob creadur unigol, yn nghwrs ei ddadblygiad corfforol, o'i genedliad i'w farwolaeth, yn ail-adrodd hanes bywydegol ei dylwyth (*race*). Yn gorfforol ddywedais, ond y mae yr un ffaith yn gywir am ddadblygiad y meddwl hefyd, can belled ag y gellir cymhwyso y gair meddwl at y byd anifeilaidd yn *gyffredinol*. Gŵyr pob darllenydd goleuedig y ffaith hon, ond nid pawb a ŵyr ei hystyr a'i chanlyniadau eithaf. Nid yw y llyffant (broga) yn greadur ag sydd wedi cyrhaedd unrhyw berffeithrwydd neillduol yn y raddfa fywydegol; eto i'w gymharu â rhai o filod syml y ddaear, y mae wedi cymeryd naid aruthrol i gyfeiriad perffeithrwydd. Dechreua teyrn llygadog y waen ei yrfa fel cell neu gôd fechan llawn o ddefnydd, tra thebyg i wyn wy, cyn lleied a chlopa pin. Ac y mae myrddiynau o drychfilod distadl y deyrnas anifeilaidd yn aros yn yr ystâd hon drwy eu bywyd—heb na phen na throed, na chylla nac ymenydd, ac O! ddedwydd filod, heb yr un galon i gymeryd i fewn ddyferion chwerwon gofidiau byd. Ti fywyd bychan crwn a distadl! mor ychydig o ofal sydd arnat, heb ofni na haint na chlefyd marwol i ymosod ar ranau dy gorpws bychan. Brenin wyt ti nas geill holl deyrnasoedd daear fyth dori dy ben, am y rheswm digonol nad oes genyt ben yn y byd! Yn wir, pe bai rhai o gewri creulon y ddaear yn dyfod âg erfyn llym, a llwyddo'th haneru neu'th chwarteru; hawdd y gallesit chwerthin yn iach am eu penau (pe baet ond berchen peiriant chwerthin); canys lle yr oeddyt *un* o'r blaen, yr wyt bellach yn *ddau*, neu yn *bedwar*, a fyddant un ac oll yn fuan cyn gryfed a'r fam-gell i ymladd brwydrau bywyd! Pe'th lyncid gan fwystfilod rheibus y maes, nid ydynt ond megys lloches i'th ddyogelu, a'u cyrff yn fangre fras ysblenydd i ti fagu'th blant ynddi. Ond yn fuan daw'r un gell i ymranu yn ddwy, a phedair, ac yn y blaen, nes y byddont gynifer â phriddfeini tŷ o faintioli mawr. Wele un res o gelli yn ymrestru fel rheng o filwyr, ac yn ffurfio sylfaen mwydyn y cefn; wele rai dwsinau yn ymgasglu ar ben y rheng, ac yn rhoddi dechreuad i'r peiriant cywreiniaf a wyddom am dano yn y greadigaeth i gyd—yr ymenydd. Ar yr un pryd, y mae'r galon yn graddol ymlunio, a rhyfeddol i'r eithaf yw prysurdeb y milyn bach i gasglu ymborth, cymrwd, a phriddfeini yr adeilad gorgywrain hwn. Gronynau llysieuol aneirif a ddiflanant o'r dwfr o'i gylch; y mae fel y llew diarebol (ond *an*rhuadwy) yn ceisio pobpeth a fedr ei lyncu: ymborth, ymborth yw

ei alwad o hyd. Ac os yn ddamweiniol y cyll ei frawd aelod, pen neu gynffon, pa ryw giniaw ardderchog a rydd hyn i'w gylla gwancus, newynog.

"Onid yw bywyd y mân-filod hyn yn ddarlun gwir o fywyd llaweroedd o'r hil fwyaf ddadblygiedig a wyddom am danynt yn y greadigaeth! Eu gwaedd ydyw bara, bara, digon o fara, ïe, gormod o fara, byth ac yn ddiddiwedd; yn llyncu a welant, ïe, yn byw ar eu *gilydd*. Ti anifail-ddyn, cymer galon, nid oes eisieu i ti farw o eisieu gwaith eto, y mae genyt waith am rai miloedd o oesau eto cyn gado'r anifail ar dy ol. Yn ngeiriau'r bardd (cyfieithiedig): 'Ymsymud ar i fyny, gan weithio allan y bwystfil; gad i'r epa a'r dywalgi drengu.' Ond gwell rhoi y geiriau yn eu gwisg brydferth gyntefig:—

"'Move upward, working out the beast,
And let the ape and tiger die.'

"Ond yn fuan daew bysgodyn bychan hoew yn nofio i bwll porfäog gyda chryfder a medrusrwydd dihafal, a thri-chwarter o wyneb y blaned yn deyrnas iddo i'w hetifeddu. Ond nid ymfoddlona ar hyn; nid digon iddo ef yw cael nofio'r elfen dryloew mewn heddwch hyd ddiwedd ei oes; myn gymeryd cam yn mhellach (a siarad yn ffugyrol, canys ni fedda *draed* hyd yn hyn), a'i uchelgais yn awr yw tramwy'r *ddaear* uchod yn ogystal a nofio'r dwfr sydd odditan y ddaear. Yn ei ymdrechion diymaros, ä yn ei flaen, ac am y tro cyntaf erioed yn ei fywyd, gwna yr hyn a wnaeth llawer i ddyn o'i flaen, yr hyn sydd ychydig o gysur iddo, efallai, fel milyn arferol gall—gwnaeth *ffwl* perffaith ohono ei hun; mewn gair, try yn *benbwl* gwirion, ac hawdd y gallasai ddyweyd yn ngeiriau'r hen Elis Wyn:—

"'Nis gwn pa beth yw'm cnawd,
Ai cig a'i pysgawd.'

"Pa nifer o fodau dynol yn ystod eu trigiant ar y blaned hon a lwyr ddynwaredasant y penbwl ffol: ymuchelgeisio i ado eu helfen a'u cylch priodol eu hunain, i fod yn wawd a siarad bythol i gylchoedd na threfnwyd mohonynt ar eu cyfer erioed!

"Ond nid byth y pery'r cyfnod penbylaidd hwn; yn wir, braidd y mae'r uchelgais newydd i rodio meusydd daear wedi meddianu ei galon, pan gymer natur dyner drugaredd ar ei ffolineb, a chan ei gynysgaeddu â phedair troed—rhai salw ddigon, mae'n wir, ar y cyntaf—eto'r penbwl a deimla yn dra balch o'i urddau newyddion. Yn fuan, hefyd, gan nad yw ei gynffon bellach yn unol â'i anrhydedd dadblygiedig, cymer natur drugaredd eto arno; ac yn dyner a gofalus iawn, ronyn ar ol gronyn, pery iddi ddiflanu, megys pibonwy'r to dan haul y gwanwyn. O'r diwedd, wele ef yn llamu mewn gorfoledd rhwng glaswellt a choed a blodau, yn frenin ar yr oll a wêl, yn gystal milyn a'r teyrn-froga mwyaf urddasol a welodd y ddaear erioed, ac yn crawcian mor llafar ac mor hyawdl ag un o frogaod Aristophanes gynt!

"Pa faint mwy o naid yw o *froga* i *ddyn*, neu o'r *un* gell i'r broga cywrain amlgellog? Wrth gwrs, nid ydym am honi y del *broga* fyth yn *ddyn*, hyd yn nod dan yr amgylchiadau mwyaf manteisiol. Nid y llwybr brogaol a gymerodd y dadblygiad dynol, yn ol pob tebyg. Ond dywed gwyddoniaeth gyda awdurdod, na lwyddodd y *penbwl cyntaf* i ddyfod yn froga; mai aros yn benbwl wnai ar hyd ei oes"—ac yn y blaen. Creulondeb â'r darllenydd amyneddgar fai ei dywys i'r ddyrysfa resymegol a gwyddonol hon. Yn unig rhoddwn y syniadau yma ar gof fel yn dangos pa olwg oedd ar ddeddf Dadblygiad ar ol cartrefu yn mharlwr meddyliol Ap Cynon.

H. R.

YNYSGAU, MERTHYR TYDFIL.

At y Golygydd.

SYR,—Gadewch i mi ddiolch i Mr. D. D. Williams am ei erthygl dan y penawd uchod. Eisieu'r gwir sydd arnom, a'r gwir geisiais i osod ger bron yn rhifyn Rhagfyr. Y mae Mr. Williams yn tybio i mi wneuthur tri chamgymeriad; o'r tri y mae dau, sef y cyntaf a'r trydydd, yn bwysig i'r pwnc mewn llaw; y mae'r ail yn bwysig, ond mewn ystyr tra gwahanol; a phosibl ddigon, gyda golwg ar hwnw, i mi gael fy arwain i amryfusedd drwy ymddiried gormod i *Hanes Eglwysi Annibynol Cymru*, lle y dywedir, cyf. ii., tudal. 258, i Mr. Daniel Davies farw "yn y flwyddyn 1851, yn 91 oed," ac iddo gael ei gladdu yn mynwent Ynysgau. Dywed Mr. Williams, o'r tu arall, iddo farw "15fed Awst, 1853, yn 93 oed," ac nid wyf am amheu ei gywirdeb; ond yr wyf yn gwrthod ei ymresymiad ar y ddau bwynt arall yn hollol.

Mi ddywedais i fod tair cangen wedi myned allan o Gwmyglo—un i Gefncoed yn 1747, un i Ynysgau yn 1749, ac un i Aberdar yn 1751; ond y mae Mr. Williams, gyda chyfrwysdra teilwng o gyfreithiwr, yn pigo un allan—ei eglwys ei hunan—ac yn rhoddi iddi arbenigrwydd neillduol, trwy ddyweyd nad cangen mohoni hi, "ond parhad o eglwys henafol Cwmyglo," wedi symud i lawr i'r fan lle saif y capel presenol yn Ynysgau. Gyda'r un cymaint rheswm y gallaf finau hawlio'r anrhydedd neillduol hwn i gapel Aberdar, yr hwn y perthynaf finau iddo, gan fod hen eglwys Cwmyglo yn fam eglwys i bob un ohonynt, ac fe adeiladwyd y ddau gapel lle y maent yn unig er mwyn cyfleusdra aelodau y ddau le Nid oes un rhith o sail i'r stori fod y naill yn eglwys Cwmyglo yn fwy na'r llall. Ond mi garwn i wybod i ba le yr aeth y llestri cymundeb. Wrth gwrs, y mae yn bwysig i Mr. Williams brofi ei bwynt hwn, gan fod cyfiawnder yr hawl i "driugain erw"

ewyllys yr hen John Williams o Bendarren (1735) yn myned yn amheus heb hyny. Cymunrodd i eglwys Cwmyglo oedd y 60 erw. Atafaeliwyd y rhai hyny i Ynysgau, a chadarnhawyd hyny gan Gyfraith y Tir, ond beth ydyw llais cyfiawnder ar y pwnc erbyn heddyw ?

Ond yn (3), chwedl y pregethwr, y mae Mr. Williams yn fy nghyhuddo o wnenthur cam â'r Parch. Thomas Benjamin Evans. Wel, yr oeddwn i wedi arfer meddwl ei fod yn un o bethau hysbys ac addefedig, yn mherthynas i'r Eglwys yn Ynysgau, fod pregethau Mr. Evans o nodwedd hollol wahanol cyn ei urddo i'r hyn oeddynt wedi ei urddo, ac yr wyf yn ofni fod yn rhaid i mi aros yn yr argyhoeddiad hwnw eto, serch i Mr. Williams wahaniaethu. Dyna yn sicr oedd barn y rhai a drowyd allan yn 1814 o'r capel a adeiladwyd gan eu tadau, ac yr wyf yn credu fod "yr Haneswyr," fel y geilw Mr. Williams hwynt, mewn modd cynil yn caniatau cymaint a hyny. Dyfynais i fel y canlyn : "Yn dra buan ar ol cael ei urddo, dechreuodd Mr. Evans bregethu athrawiaeth fwy efengylaidd," a thybia Mr. Williams i mi wneuthur cam, am na fuaswn yn dyfynu rhagor ; ac er cymhwyso'r cam, gesyd efe'r dyfyniad yn fwy cyflawn fel y canlyn : "Yn dra buan ar ol cael ei urddo, dechreuodd Mr. Evans bregethu athrawiaeth fwy efengylaidd *nag a bregethasid yn mhwlpud Ynysgau er dyddiau Mr. James Davies*," gan Italeiddio'r ychwanegiad, yn y dyb ei fod yn gosod gwedd wahanol arno nag a ddeallais i ; ond sylwer yn fanwl ar y dyfyniad fel y mae yn awr. Mantellai Rees a Thomas—"yr Haneswyr"—ymddygiad y Parch. T. B. Evans mor bell ag y medrent ; ond er iddynt awgrymu fod mwy o efengyl yn yr hyn a bregethai Mr. Evans (syniad yr wyf fi yn hollol ymwrthod âg ef) nag yn yr hyn a bregethai ei flaenoriaid, ni fedrent ysgoi'r ffaith, hysbys heb eu tystiolaeth hwy, fod ei bregethu wedi myned yn wahanol *yn dra buan ar ol cael ei urddo* i'r hyn oedd cyn hyny. Dyna ddywedais i, dyna ddywed Rees a Thomas, a dyna ddywed traddodiad am yr hyn a ddywedai y rhai a orfuwyd i fyned allan o Ynysgau yn 1814, ac a adeiladasant gapel Twynyrodyn yn 1821. Urddwyd Mr. Evans ar yr 20fed o Fawrth, 1811 ; ond yr oedd wedi pregethu cyn hyny ; ac nid oes lle i amheu na ddarfu iddo am beth amser bregethu ar y cyfan i foddlonrwydd cyffredinol ; ond "*yn dra buan ar ol ei urddo*," tybiodd y gwnai plyfyn cochach ateb ei bwrpas yn well.

R J. J.

AR FEDD ADYN ANHRUGAROG.

DYMA lle gorwedd, fe gyfyd wrth wŷs,
Y rhan farwol o gorff yr hen Sion Ifan Rhys ;
Os c'as e' drugaredd, mae'n rhyfedd yn bod,
Ni wnaeth e' drugaredd âg undyn erioed.

Collectanea, 1820.

MANION AC HANESION.

NODYN.—Bydded i'r cyfeillion caredig sydd wedi cyfranu tuag at leihau dyled capeli y Pentre a Chlydach Vale i fod yn amyneddgar. Os gallaf gadw ar deleriau teg â'r Golygydd, caiff eu henwau oll ymddangos yn eu tro yn yr YMOFYNYDD.—*Dafydd Rees.*

LLUNDAIN.—Daeth cynulliad llawn i Essex Hall, nos Sul, Ionawr 21ain, pan y gwasanaethodd y Parch. J. Hathren Davies, Cefncoed. Cafwyd oedfa hwylus, a theimlad pawb oedd mai da oedd iddynt fod yno.

LLWYDDIANT.—Ein llongyfarchiadau mwyaf gwresog i Miss R. Jones, Pen-'rallt-newydd, Llanybyther, am ei gallu medrus i basio arholiad y *Pharmaceutical Society* mor lwyddianus. Yn ystod ei harosiad yn Llundain, bu Miss Jones yn mynychu yr oedfaon yn gyson yn Essex Hall. Llwyddiant a'i dilyno eto yn y dyfodol i wneyd defnydd mawr o'i gradd o M.P.S. yw dymuniadau mwyaf calonog ei llu cyfeillion.

ABERYSTWYTH.—Dyledus yw dyweyd fod Mrs. a Miss Marles Thomas, Aberystwyth, wedi treulio eu gwyliau Nadolig i barotoi anrhegion tuag at yr adran Gymreig o'r *Bazaar* yn Llundain.

TREGARON. — Fe fydd yn newydd da gan gylch helaeth o gyfeillion i gael ar ddeall fod Mr. John David Jenkins, Trecefel, ger Tregaron, wedi enill y gradd urddasol o M.D. yn Mhrifysgol Llundain. Y maes hwn yn radd nad oes ond nifer fechan mewn cymhariaeth yn y deyrnas yn ei gyrhaedd, » dywedir ei fod yn gofyn yr ymroddiad llwyraf a'r talentau dysgleiriaf cyn ei gael. Os felly, y mae gwaith boreuol bywyd Mr. Jenkins yn adlewyrchu clod mawr arno. Bydded ei ddyfodol yn hir a llwyddianus i wasanaethu ei oes a'i genedl. Cefnder yw Mr. Jenkins i Mr. Tom Evans, Tynant, y crybwyllir am dano yn y rhifyn diweddaf. —*Edmygydd Mawr.*

CAERONEN. — Ar y 15fed cyfisol, cynaliodd eglwys y lle uchod ei gwyl de flynyddol yn yr ysgoldy perthynol i'r capel, a'r amcan blaenaf mewn golwg oedd rhoddi gwledd i blant yr Ysgol Sul, ac yr oedd y wledd yn mhob ystyr yn deilwng o'r amcan. Huliwyd y byrddau â danteithion drudfawr a blasus, a gweinyddwyd wrthynt gan foneddigesau serchog, a chyfranogwyd o'r darpariadau gan dyrfa luosog o bob oedran; ac yr oedd y ffaith fod plant yr ysgol ddyddiol, ac ereill, wedi eu gwahodd, a llawer ohonynt wedi derbyn y gwahoddiad yn chwyddo y dorf, ac yn gwneyd yr amgylchiad yn fwy dyddorol fyth. Am chwech yn yr hwyr, yr oedd y cyfarfod llenyddol ac adloniadol i ddechreu, ac yn fuan ar ol yr amser uchod, ymgymerodd yr adroddwyr, y cantorion, ac ereill á'u gwaith gydag aiddgarwch, ac nid gormod yw dyweyd ein bod wedi cael gwell cwrdd na'n dysgwyliadau goreu, er fod yn bresenol yno rywrai o'r hil hyny a gânt eu gwynfyd uchaf mewn bywyd, gallem feddwl, mewn aflonyddu cyfarfodydd o'r fath hyn, ac mewn ystranciau o gyffelyb natur. Trueni mawr fod dynion ieuainc ydynt yn proffesu eu hunain yn aelodau o Ysgol Sul yn gallu ymddwyn mor anfoesgar, ac hyd yn nod yn myned mor bell a cheisio aflonyddu ar bobl pan yn mynychu'r addoliad cyhoeddus ar y Sul. Beth yw barn penau teuluoedd Cellan am bethau fel hyn ïe, a blaenoriaid crefyddol y gymydogaeth hefyd?

LLANBEDR.—Cynaliodd eglwys Brondeifi ei chyfarfod cystadleuol diweddaf ar yr 20fed o Ragfyr, 1899. Mae'n bosibl nad oedd y cyfarfod yma i fyny â rhai cyfarfodydd blaenorol ydym wedi gael yn yr un lle; ond nid oes dim na neb yn gallu bod yn ei fan goreu bob amser. Cadeiriwyd gan y gweinidog, ac arweiniwyd gan Mr. Gwilym Evans, B.A. Beirniad y canu oedd Mr. Griffith, C.M., Cribin; a beirniaid yr adroddiadau oeddent y Parch. Jenkins (C.M.), a Mr. Tivy Jones, Llanbedr.

Y WIG.—Cynaliodd Ysgol Sul y lle uchod ei gwyl flynyddol o de a bara brith, dydd Nadolig, Rhagfyr 25ain, 1899, pan y daeth lluaws yn nghyd i fwynhau o'r hyn a barotowyd gan aelodau y gynulleidfa. Yn hwyr yr un dydd, cafwyd cyfarfod dyddorol dros ben o adrodd, canu, &c., gan y plant. Yr oedd y capel wedi ei orlenwi gan wrandawyr astud, y rhai gawsant eu llwyr foddloni yn ngwaith y cyfarfod. Hefyd anrhegwyd pob un o'r ysgolheigion â

llyfr gwerthfawr am fynychu yr Ysgol Sul yn ystod y flwyddyn. Cadeiriwyd yn ddeheuig gan Mr. G. Williams, Aberdar, ac arweiniwyd gan y gweinidog.

LLWYDDIANT.—Bydd yn llawen gan luaws cyfeillion y myfyriwr ieuanc, Mr. John Evans, o Goleg yr Undodiaid (U.H.M.C.), Manceinion, i glywed ei fod wedi enill ysgoloriaeth o £70 (Ysgoloriaeth Gaskell) yn y Coleg uchod. Llongyfarchwn ein cyfaill ar ei lwyddiant, ac eiddunwn Dduw yn rhwydd iddo eto yn y dyfodol.

LLWYNRHYDOWEN. — Mawl, myfyrdod, llawenydd, a chân oeddynt yn nodweddu y Nadolig yma eleni, fel arfer. Am ddau yn y prydnawn, cynaliwyd gwasanaeth crefyddol, pryd yr holwyd Ysgolion Sul y Llwyn a'r Bwlch ar Marc xii., a phlant y Bwlch ar Hanes Iesu Grist gan y myfyriwr ieuanc, Mr. E. O. Jenkins, o Lanbedr. Aeth y ddwy ysgol a'r arholwr drwy eu gwaith yn ganmoladwy iawn; ond yr oeddem, er hyny, yn teimlo fod trugaredd, cariad, ac hyd yn nod cyfiawnder Duw yn amheus iawn i rai o'r brodyr. Beth nesaf, tybed? Drwg genym na fuasai y rhai sydd yn mynychu yr Ysgol Sul yn gwneyd ychydig yn fwy o ymdrech i fod yn bresenol ar adegau o'r fath hyn. Y mae eich lleoedd yn wâg, gyfeillion, a'ch cydymdeimlad a'ch cynorthwy yn eisieu. Ar derfyn y gwasanaeth, anrhegwyd plant y ddwy Ysgol gan Miss Jones, Gellifaharen, ar ran ei mam, yr hon, oherwydd ei fiechyd, oedd yn analluog i fod yn bresenol, âg eurafalau a melusion. Yna gwahoddwyd pawb at y byrddau i ddiwallu eu hunain â'r te a'r deisen, rhoddedig gan bwyllgor yr Ysgol Sul. Yn yr hwyr, cynaliwyd cyngerdd odidog o dan lywyddiaeth y Cadben Davies, ac arweiniad doniol Mr. E. O. Jenkins. Yr oedd yma raglen faith o ganu a pherfformio, ac yr oedd ôl llafur nid bychan ar yr oll. Y prif bethau oeddynt—dwy ddrama a elwid, "Teparti Sarah Riddle," a "That boy Pete," yn nghyda pherfformiad y *Nigger Company*. Y mae y ffaith fod dros 550 wedi dyfod yn nghyd o ardal wledig fel hon yn siarad yn uchel am y medr a'r dalent a ddangosir yn y cyngerdd flynyddol hon. Cyfeiliwyd drwy yr hwyr gan Miss Jones, Gellifaharen. Y mae y modd y mae y fonheddiges ieuanc hon yn cynorthwyo yr achos yn deilwng o sylw, a da fyddai genym weled ereill o'n pobl ieuainc yn dilyn ei hesiampl, gan fod yn ffyddlon i'r achos oedd mor anwyl gan eu tadau. Terfynwyd trwy ganu "Hen Wlad fy Nhadau," ac aeth pawb tua'u cartrefleoedd gan deimlo, ni a gredwn, eu bod wedi cael Nadolig llawen mewn gwirionedd.—*Undodwr.*

CYNGERDD NADOLIG LLWYNRHYDOWEN.—Mr. Golygydd,—Gyda'ch caniatad, dymunaf ddefnyddio darn bychan o'ch gofod i alw sylw y wlad at y cyfarfod uchod, a gynaliwyd yn Hen Gapel y Llwyn, Llandysul, nos Nadolig diweddaf. Yr oedd yr adeilad yn orlawn, a gwedd y rhan fwyaf oedd yno yn tystio yn eglur eu bod yn mwynhau eu hunain i berffeithrwydd. Yn eglur ddigon, bu rhai misoedd celyd o barotoi, ac helynt a thrafferth lawer i rywrai cyn dwyn oddiamgylch gyfarfod mor llawn a llwyddianus. Y mae clod mawr yn deilwng i drefnwyr yr adroddiadau, i oruchwylwyr y dadleuon, ac yn enwedig i'r rhai fu'n gofalu am y canu. Dengys y cyfan fod ardal y Llwyn mor llawn o fywyd ac yni ag erioed. Y mae talent yn y lle, ac y mae yma lawer yn barod i gymeryd y talentau hyn mewn llaw i'w trin a'u meithrin. Can' clod iddynt am hyny. Os yw Undodwyr yn enwog am rywbeth—yni iachus ydyw hwnw. Y mae cochni bywyd yn wastad ar foch Undodiaeth—yn wahanol iawn i lwydni angeuol y sectau hen ffasiwn. Ond, tybed, a ydyw cyngerdd y Llwyn i'w gyfiawnhau yn mhlith pobl ddiaddysg y wlad ar noson gysegredig y Nadolig (canys y mae yn gysegredig, o ba gred bynag y byddom), ac o fewn muriau â'n hanes mor fendigaid yn ein golwg ag eiddo Hen Gapel, Llwynrhydowen? Yn ddifrifol yr wyf yn gofyn, "A eill eilun o deimlad crefyddol fodoli yn y fan lle yr hysbysir y cenir "comic songs, as sung in the leading London Music Halls," a hyny ar nos Nadolig? Yr wyf yn edmygwr mawr o eangder syniadau yr Undodwyr, a rhesymoldeb ac iachusrwydd y grefydd Undodaidd—crefydd y dyfodol, mi gredaf. Wedi'r cyfan, nis gellir ysgar oddiwrth addoliad y teimlad o iselder, cysegredigrwydd, ac hyd yn nod defosiwn; y glan a'r sanctaidd ddylai fod yn bresenol yn y meddwl pan yn talu gwarogaeth i burdeb ac anfeidrol gariad yr Anweledig Mawr. Ac onid teimladau fel hyn a ddylai fod yn mlaenaf pan o

fewn muriau y cysegr? Y mae canu *comic songs* o'r fath ag a glybuasom yn y Llwyn yn groes i chwaeth y mwyaf diofal ohonom, pan yn ein mynydau goreu; ac yn sicr y mae yn dra anghydweddol â'r "parchus ofn" sydd yn ddyladwy yn nhŷ Dduw. Gofidus genym feddwl fod pobl dda'r Llwyn yn gadaelpeth fel hyn i dramgwyddo teimladau pob dyn crefyddol yn yr ardal; a gwaeth fyth yn auelu at dynu dinystr ar ben Undodiaeth Ymneilldduol, a chrefydd yn gyffredinol. Y mae pobl cymydogaeth Pontshan a'r cylchoedd yn bobl nas ceir rhai mwy deallgar a hoff o gerdd a difyrwch meddyliol drwy Brydain i gyd. Dena unrhyw beth o natur cyngerdd neu gyfarfod cystadleuol hwynt; y maent yn berchen awch feddyliol gref. Dyledswydd rhai blaenllaw yr ardal, ynte, ydyw pwrcasu i'r bobl wledig hyn ymborth meddyliol o fo o'r mwyaf lles iddynt—rhywbeth, drwy ddangos iddynt y goreu yn y greadigaeth, a dŷn eu goreu hwythau allan yn ei dro. Nid wyf yn credu mewn llawer o lenyddiaeth a chanu lleddf ein gwlad—digon synwyrol yw dwyn i fewn dipyn o fywyd cyfoethog y Sais—ond yn sicr gellid cael digon o hwn, a gadael allan gerddi brwystus, cellweirus, ïe, iselradd, y tŷ tafarn a'r *music hall*. Y mae yn ddilys genyf y byddai cyfarfod chwaethus, adeiladol, yn fwy cydnaws gan bobl y Llwyn, na chyfarfod o natur eiddo'r Nadolig diweddaf. Yr wyf yn ysgrifenu hyn fel un ag sydd yn meddu cariad dwfn at Gymru, at grefydd, ac at les a llwyddiant hen bobl anwyl Llwynrhydowen. Hyderaf y derbyniant hyn o eiriau yn yr ysbryd yr ysgrifenir hwy, gan—*Un oedd yno.*

CAPELYBRYN.—Prydnawn dydd Sul, Ionawr 7fed, ar ol y gwasanaeth, darllenwyd yn fyr y cyfrifon am y flwyddyn y rhai ddangosent fod ychydig arian, mewn llaw. Nid amcan y nodyn hwn yw croniclo y ffaith uchod, ond i gymeryd mantais ohoni i dreio dangos y ffordd well sydd gan ein brodyr, y Saeson, i wneyd pethau fel hyn. Mae ganddynt hwy gyfarfod cyhoeddus unwaith bob blwyddyn, yn yr hwn yr eir trwy y cyfrifon am y flwyddyn, gan yr ysgrifenydd neu y trysorydd, ac y gwneir sylwadau pwrpasol arnynt gan y gweinidog, a phob aelod fyddo'n dewis. Hefyd, trinir ar bynciau perthynol i'r eglwys, a gwneir awgrymiadau ar ragolygon y dyfodol, a'r modd goreu i'w gwneyd yn fwy effeiriol. Yma y mae pobpeth yn agored i bawb, ond gyda ni yn rhy aml mae mwyafrif yr aelodau yn ymddwyn fel pe na bai amgylchiadau y capel yn perthyn o gwbl iddynt hwy, ac ni chymerant hyd yn nod y drafferth i wrando ar y cyfrifon yn cael eu darllen. Y canlyniad yw, fod pob gwaith perthynol i'r capel yn syrthio i ddwylaw dau neu dri, ac fod y lleill yn hollol ddifater yn ei gylch. Mae hyn yn gwrthryfela yn erbyn llwyddiant pob mudiad, ac y mae yn un achos mawr o'n hafl wyddiant yn Nghymru. Paham, ynte, na allem gymeryd dalen o lyfr y Sais?

CAPELYGROES.—Nos Nadolig, cynaliwyd cyfarfod cystadleuol, yn cael ei wneyd i fyny o ganu, adrodd, areithio, &c., yn ysgoldy y capel hwn. Cymerwyd y gadair gan y gweinidog, ac arweiniwyd yn ddeheuig iawn gan y Parch. E. E. Jenkins, o Goleg Manceinion, Rhydychain. Aeth pawb trwy eu gwaith yn fedrus, a dygwyd cyfarfod hollol lwyddianus i ben trwy ganu "Hen Wlad fy Nhadau," Mr. T. J. Jones, ysgolfeistr, Llanwnen, yn cymeryd yr alaw.

MARWGOFION.

MEDI 5ed, 1899, ar ol cystudd maith, Anne, anwyl briod John Williams, Llwynyreos, Llandysul, yn 41 mlwydd oed. Claddwyd y dydd Gwener canlynol yn Mynwent Newydd Llwynrhydowen, o'r hon eglwys yr oedd yn aelod, a gweinyddwyd ar yr achlysur gan y Parch. Thomas Thomas, Y.H., a Mr. E. O. Jenkins, myfyriwr. Gadawodd briod a thri o blant i alaru eu colled anadferadwy. Nerth a gaffont i ymddiried yn Nuw pob daioni, ac i gofio mai y gofgolofn oreu allant godi i ofal a thynerwch mam yw bywydau yn cael eu treulio yn ngwasanaeth Duw a dyn.

TACHWEDD 29ain, yn 8 mlwydd oed, Jennie, merch y diweddar James a Jane Jones, gynt o Mountain Ash. Er claddedigaeth ei rhieni ychydig flynyddau yn ol, bu dan ofal ei thadcu, a'i mamgu, a'i hewythr, yn Wern View, Cribyn, lle y bu farw. Ac yn ystod ei hafiechyd, yr hwn a barhaodd am amryw fisoedd, derbyniodd bob ymgeledd a thiriondeb oddiar eu llaw. Yr oedd Jennie yn blentyn swynol iawn, a chwith gan ei pherthynasau, yn ogystal a'i chydysgolheigion oedd ei cholli. Ond er iddi farw yn ieuanc, ni fu ei bywyd yn hollol ddiamcan; bydd yr adgof am dani yn felus i'r rhai sydd ar ei hol. Claddwyd hi yn Mynwent Cribyn, y Sadwrn canlynol, y gweinidog yn gwasanaethu, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. R. C. Jones.

RHAGFYR 15fed, 1899, Mary Davies, Pantffin, Cellan, gynt Cadwgan, Cellan, yn 81 mlwydd oed. Nid oedd cystudd diweddaf yr ymadawedig ond byr a chymharol ysgafn, ond nid oedd heb wybod er's dyddiau lawer, a hyny trwy brofiad, fod poen a blinder yn canlyn triugain-a-deg a chryfder pedwar-ugain mlynedd o amser ar y ddaear. Yr oedd wedi bod yn aelod ffyddlon o eglwys fechan Caeronen am flynyddoedd lawer, ac yn ei ffordd dawel a dystaw ei hun. Yr oedd llwyddiant yr achos yn agos at ei chalon, ac anaml, hyd y gallai, y byddai ei lle yn wâg yn y cysegr ar y Sul, hyd yn nod pan wedi ei gorddiwes gan henaint a methiant. Gadawodd i alaru ar ei hol ferch ac wŷrion, heblaw perthynasau ereill. Ar ddydd ei hangladd daeth torf luosog yn nghyd i hebrwng ei gweddillion i dŷ ei hir gartref yn Mynwent Caeronen. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

RHAGFYR 20fed, 1899, William Williams, Hendy Neuadd (gynt o Bantyrhwch), gor Llanwnen, yn 89 mlwydd oed. Yr oedd ein hen gyfaill ymadawedig wedi mwynhau iechyd rhagorol trwy ei oes hirfaith hyd y diwedd. Yr oedd ddydd Mawrth yn iach fel arfer; ond cyn boreu tranoeth yr oedd bywyd wedi ymadael; cafodd felly ei symud ymaith yn unol â'i ddymuniad. Yr oedd trwy ei oes wedi bod yn fynychydd cyson yn Nghapelygroes; ac yr oedd yn edmygydd mawr o'i ddiweddar weinidog, y Parch. Thomas Thomas—a drwg oedd gan bawb ddeall ei fod wedi methu, oherwydd afiechyd, d'od i weinyddu yn ei angladd, yn unol â dymuniad yr ymadawedig. Mewn llythyr o eiddo Mr. Thomas at yr ysgrifenydd, datganai ei ofid am na allai fod yn bresenol; a dygai dystiolaeth i'w feddwl uchel am yr ymadawedig. Gadawodd ar ei ol un ferch, yr hon sydd yn byw yn y Rhondda. Claddwyd ei weddillion yn Mynwent Capelygroes y dydd Sadwrn canlynol, pan ddaeth nifer luosog yn nghyd i dalu iddo y gymwynas olaf. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan y gweinidog.

RHAGFYR 21ain, 1899, yn 93 mlwydd oed, Mary Jones, Pensarnmynach, Cribyn. Yr oedd ein chwaer ymadawedig wedi gweled blynyddau meithion yn y byd, ac yn eu hystod wedi cwrdd â llawer o ystormydd yn ddiau; ond, er hyn, parhaodd hyd y diwedd yn siriol ac amyneddgar a boddlongar i'w chyflwr. Yn wir, yr oedd yn hyn yn esiampl i lawer sydd mewn amgylchiadau gwell. Yr oedd yn aelod ffyddlon yn Cribyn, a pharhaodd i fynychu'r addoliad yn rheolaidd tra y gallodd; ac hyd y diwedd ei gofynia'l cyntaf i'w merch a'i chydymaith bob Sul ar ol y gwasanaeth oedd am y testyn. Yr oedd yn hyddysg iawn yn y Beibl, ac yr oedd yn gysur iddi bob amser. Yn ystod dyddiau ei methiant, bu ei merch yn gofalu yn dyner iawn am dani. Yr Arglwydd a dalo iddi. Claddwyd ei gweddillion yn Cribyn y Llun canlynol, pryd y gweinyddwyd gan weinidog y lle.

ON Christmas Day, 1899, Mrs. Mary Jane Griffiths, 91, Dumfries, Treorchy, at the early age of 36 years, after barely a fortnight's illness. The funeral took place on the following Thursday, at the Public Cemetery, Treorchy. The minister of Pentre, D. Rees, conducted the service at the house and in the chapel, assisted by the Rev. T. L. Davies (Con.), Cwmpark; at the grave-side by the Rev. J. E. Jenkins, Dowlais. A great concourse of people, from far and near, had come together to show their respect to the memory of our departed sister. Mrs. Griffiths was a daughter of the late Mr. David Thomas (one of the founders of the Glanrhondda congregation) and Mrs.

Joanna Thomas, 78, Bute Street, Treorchy. We keenly feel her loss in our small congregation, and heartily sympathize with her widowed mother, her husband, and five children, to whom her loss is irreparable, and two brothers; and commend them all to Him who is the only true source of comfort and strength in such bereavements.

RHAGFYR 25ain, ar ol cystudd byr, yn 38 mlwydd oed, Anne, anwyl briod Thomas Davies, Neuadd, Ceinewydd. Gadawodd ei phriod a thri o blant i alaru yn ddwys ar ei hol. Yr oedd yn wraig ffyddlon, yn fam dyner a gofalus, ac yn gymydoges hawddgar. Dangosodd y cymydogion gydymdeimlad mawr â'r teulu yn eu trallod yn ystod cystudd Mrs. Davies, ac ar ol ei marwolaeth. Bu teulu parchus y Frondolau yn hynod garedig wrthynt; ac nid ä eu caredigrwydd yn fuan yn anghof. Claddwyd ei gweddillion yn Mynwent Capelygroes. Gwasanaethwyd ar yr achlysur galarus yn y tŷ gan reithor parchus Llanllwch-haiarn; ac yn y capel a'r fynwent gan y Parch. J. Davies, Alltyplaca. Heddwch i'w llwch; a nerth i'w pherthynasau i alaru yn y "gobaith gwynfydedig."

RHAGFYR 27ain, yn 31 mlwydd oed, Elizabeth, anwyl briod John Jones, Ffosyffaldisaf, Llanwenog. Gadawodd ei phriod a thri o blant bychain wrthynt eu hunain i ymladd brwydr bywyd. Boed iddynt gael nerth i'w hymladd yn ddewr ac yn dda, fel y gallont ddywedyd ar y terfyn—"Mi a ymdrechaia ymdrech deg." Claddwyd yn Mynwent Llanwnen, a chyflawnwyd y gwasanaeth yn y tŷ gan y Parch. J. Davies, ac yn yr Eglwys a'r fynwent gan gurad Llanbedr.

IONAWR 2il, 1900, yn 87 mlwydd oed, Timothy Evans, Penlan-Gyfeile, Llandysul, yr olaf o deulu o wyth o blant cymharol hirhoedlog a thra adnabyddus yn y plwyf, y nifer amlaf ohonynt, fel ffermwyr medrus a llwyddianus. Bu John farw yn 91 oed, a Benjamin yn 63. Bu y tri hyn farw yn sengl. Bu Mary farw yn 83 oed, yn fam i bump o blant, oll ohonynt wedi marw, ond y mae yn aros ar ol bump o ŵyrion iddi. Bu Rees farw yn 90 oed, yn dad i dri o blant, os nad wyf yn camsynied; ond bu dau farw yn eu mabandod, a bu y llall byw i briodi, ond bu farw flynyddau lawer o flaen ei dad, gan adael gweddw a phedwar o blant ar ei ol, y rhai ydynt wedi tyfu i fyny, ac yn byw gyda'u mam yn fferm Gyfeile. Cafodd yr oll o'r personau a enwyd uchod eu claddu yn Mhantdefaid. Y mae tri o frodyr heblaw y rhai a enwyd yn aros heb eu coffhau, sef Evan, Dafydd, a Thomas. Bu y ddau flaenaf farw yn gynar yn y ganrif, ond y mae un ferch i Dafydd yn fyw yn bresenol, a bu merch arall iddo fyw hyd yn ddiweddar; a rhwng plant y ddwy, y mae llawer iawn o ŵyrion iddo. Yr wyf yn cael ar ddeall fod un mab, o leiaf, i Evan ar dir y byw, ond mewn gwth o oedran. Claddwyd Evan a Dafydd yn Llandysul. Thomas oedd siopwr yn Nghwmafon, Morganwg, lle y bu farw ac y claddwyd ef. Gadawodd weddw a mab a merch ar ei ol, y rhai a ymfudasant i America. Ar ddydd angladd T. Evans, y Gwener canlynol, pregethwyd yn y capel gan y Parch. T. A. Thomas, a gorphenwyd y gwasanaeth ar lân y bedd gan y Parch. John Davies. Iawn fyddai dyweyd i'r cyfaill caredig hwn adael cymun-rodd o gan' punt i ymddiriedolwyr cynulleidfa Pantdefaid, er mwyn cynorthwyo yr achos.

IONAWR 7fed, Idris, maban David Davies, 26, Bell Court, Trecynon, Aberdar, yn chwech wythnos oed. Gwasanaethwyd gan y Parchn. Mr. Stephens, Carmel, ac R. J. Jones, M.A.

"Bu farw dyn, hyn ydyw llef marwolion:
Fe anwyd plentyn ydyw llais angylion."

IONAWR 8fed, yn 87 mlwydd oed, Rachel Evans, Court Cottage, Llanfihangel-Ystrad. Dygwyd y rhan farwol ohoni i orwedd yn Mynwent Eglwys Rhydygwin yr Iau canlynol, pryd y gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. L. Williams, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. J. Davies.

IONAWR 21ain, Mary, gwraig y diweddar Mr. Evan Griffiths, y Poplars, Aberdar, yn 73 oed. Claddwyd hi ddydd Iau yn y Gladdfa Gyffredinol, y Parch. J. J. George yn gwasanaethu.

Argraffwyd gan Joseph Williams, Swyddfa'r "Tyst," Merthyr Tydfil.